




Strategaeth Ddrafft y Gymraeg 2026–2031

This item is also available in English / Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd.



Tabl cynnwys

Rhagair (i gael ei gwblhau ar gyfer fersiwn derfynol y Strategaeth)	4
1). Y cyd-destun polisi- pam mae angen strategaeth pum mlynedd arnom?	4
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg	4
a). Y cyd-destun polisi cenedlaethol	5
Strategaeth Cymraeg 2050	5
Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025	5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	5
Fframwaith strategol 'Mwy na geiriau'	6
Polisi cynllunio cenedlaethol	6
b). Y cyd-destun polisi lleol	6
Strategaeth Gorfforaethol 2025–2030	6
Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro	6
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–31	7
Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol	7
c). Crynodeb o'r cyd-destun polisi	7
2). Adolygiad o Strategaeth y Gymraeg 2021–26	8
a). Nifer ac oedran siaradwyr Cymraeg	8
b). Gweithgareddau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg 2021-26	14
Partneriaethau	19
c). Themâu sy'n dod i'r amlwg a nodwyd ar gyfer Sir Benfro	20
Heriau demograffig	20
Themâu	20
3). Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2026–31	23
Gweledigaeth a themâu strategol	23
Amcanion – cefnogi gweledigaeth a themâu strategol <i>Cymraeg 2050</i>	23
Targed	23
Cynllun Gweithredu 2026–31	24
Amcan 1: Datblygu ein rôl arweinyddiaeth gymunedol o ran y Gymraeg	24
Amcan 2: Ehangu addysg blynyddoedd cynnar ac addysg ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg (fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg)	25
Amcan 3: Gwellu cyfleoedd i bobl sy'n gadael yr ysgol, ac oedolion eraill, ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro	26

Amcan 4: Cefnogi'r Gymraeg yn weithredol o fewn ein cymunedau / sector busnes	27
Llywodraethiant.....	28
Monitro.....	28
Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi bod yn llwyddiannus?	29
Casgliad.....	29

Rhagair (i gael ei gwblhau ar gyfer fersiwn derfynol y Strategaeth)

1). Y cyd-destun polisi- pam mae angen strategaeth pum mlynedd arnom?

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg

Rheoleiddir Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac fe'i deddfwyd er mwyn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Creodd y ddeddfwriaeth hefyd Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r safonau wedi'u categoraiddio i'r meysydd penodol canlynol:¹ darparu gwasanaethau, llunio polisi, llunio polisïau newydd, gweithredu, hyrwyddo, a chadw cofnodion.

Mae safon hyrwyddo 145 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynhyrchu strategaeth pum mlynedd a'i chyhoeddi ar ein gwefan. Mae'n nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro. Rhaid iddi gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd; a
- datganiad o sut rydym yn bwriadu cyrraedd y targed.

Ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd, mae'n ofynnol i ni hefyd adolygu ac ailgyhoeddi'r strategaeth pum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth (safon hyrwyddo 146) ac mae'n ofynnol i'r cyngor:

“Pum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 –

(a) asesu i ba raddau rydych chi wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi

(b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal ac oedran y siaradwyr hynny
- rhestr o'r gweithgareddau rydych chi wedi'u trefnu neu eu hariannu yn ystod y pum mlynedd blaenorol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg”

Mae Strategaeth y Gymraeg 2026–31 yn cynrychioli parhad o ail Strategaeth y Gymraeg (2021–26) ac yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud ers y strategaeth gychwynnol (2016–21).

¹ [Comisiynydd y Gymraeg: Sefydliadau cyhoeddus – Safonau'r Gymraeg](#)

a). Y cyd-destun polisi cenedlaethol

Strategaeth Cymraeg 2050

Cyflwynwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017, gan nodi dau nod allweddol i'w cyflawni yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2050:²

- Miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg o 10% (llinell sylfaen 2013–15) i 20%

Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar dair thema strategol i gefnogi'r nodau hyn:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol, seilwaith a chyd-destun

Nod y strategaeth yw gwrthdroi'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg drwy drawsnewid sylweddol sy'n cynnwys cryfhau addysg cyfrwng Cymraeg, cefnogi'r gweithlu, a hyrwyddo defnydd o'r iaith mewn cymunedau.

Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

Cyflwynwyd *Bil y Gymraeg ac Addysg* i'r Senedd ym mis Gorffennaf 2024. Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol, gan ddod yn *Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ym mis Gorffennaf 2025*. Nod y Ddeddf yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a chefnogi pob myfyriwr i ddod yn siaradwr Cymraeg annibynnol a hyderus erbyn diwedd eu haddysg statudol ac mae'n gosod y targed i bob disgybl ddatblygu sgiliau llafar wedi'u mesur yn erbyn y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd.^{3 4} Mae gweithredu'r Ddeddf yn cynnwys ymgynghoriad ar god statudol i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Prif nod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r strategaeth hon yn cyfrannu'n benodol at y nod llesiant "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu", yn unol â'r Ddeddf, ac mae ganddi rôl arwyddocaol i'w chwarae ar draws pob un o'r saith nod llesiant.

² [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#)

³ [Senedd Cymru: Bil y Gymraeg ac Addysg \(Cymru\)](#)

⁴ [Bil y Gymraeg ac Addysg \(Cymru\): Crynodeb o'r Bil \(Medi 2024\)](#)

Fframwaith strategol 'Mwy na geiriau'

Nod “*Mwy na Geiriau*” yw sicrhau bod anghenion iaith siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu, darparu gwasanaethau Cymraeg i'r rhai sydd eu hangen, a dangos bod iaith yn agwedd annatod o ansawdd gofal, nid yn “ychwanegiad”. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r her o ddatblygu'r ‘cynnig rhagweithiol’, sef bod aelodau staff yn cynnig gwasanaeth Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaeth o'r pwynt cyswllt cyntaf, fel nad oes rhaid i'r defnyddiwr ofyn am wasanaeth Cymraeg. Mae iaith yn ganolog i ddiogelwch, urddas a chyfathrebu effeithiol, yn enwedig mewn cyd-destunau sy'n cynnwys unigolion agored i niwed.

Polisi cynllunio cenedlaethol

Mae polisiau cenedlaethol yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn ffactor allweddol mewn penderfyniadau ynghylch datblygu, creu lleoedd, a dyfodol cymunedau yng Nghymru.^{5 6 7} Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn ffurfio dull cynhwysfawr o gefnogi'r Gymraeg drwy bolisiau ac arferion cynllunio cenedlaethol.

b). Y cyd-destun polisi lleol

Strategaeth Gorfforaethol 2025–2030

Mae strategaeth gorfforaethol y cyngor yn gosod ac yn mynegi ein hamcanion llesiant. Mae tri cham gweithredu'n ymwneud â'r Gymraeg:

- Datblygu a chynhyrchu strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg erbyn 2026, gyda chyfranogiad yr holl randdeiliaid allweddol
- Parhau i gyflawni prosiectau diwylliannol sy'n cryfhau cysylltiadau ag iaith, llesiant a lle (*cynefin*)
- Cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg fel iaith gyntaf, gan gynnwys gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2026.

Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

Un o egwyddorion craidd cynllun llesiant y bwrdd yw “diwylliant a'r Gymraeg”. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod gweledigaeth strategaeth Cymraeg 2050 wedi'i hymgorffori yn ei waith lle bynnag y bo modd. Mae meithrin gwell dealltwriaeth o'n cymunedau dwyieithog gan ddefnyddio data a

⁵ [Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 \(2021\)](#)

⁶ [Polisi Cynllunio Cymru | Rhifyn 12 \(2024\)](#)

⁷ [Nodyn cyngor technegol \(TAN\) 20: cynllunio a'r Gymraeg \(2017\)](#)

mewnwelediadau lleol i ddatblygu sylfaen dystiolaeth i lywio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol yn gam gweithredu allweddol.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–31

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan osod targedau ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a dangos camau gweithredu clir tuag at wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer addysg Gymraeg.⁸

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn nodi gofynion mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'r prif ysgogydd yw strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg deng mlynedd yn weithredol o fis Medi 2022; i bob pwrpas, mae hyn yn darparu congrfaen cyfraniad y cyngor at strategaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r saith deilliant allweddol hyn yn rhan o Strategaeth y Gymraeg 2021–26, sef y strategaeth gyfredol. Mae cynnydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn erbyn y saith deilliant yn cael ei fonitro a'i adrodd yn flynyddol.

Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

Fe wnaethom barhau i weithio ar Gynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer cymunedau Sir Benfro sydd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, a bydd hwn yn llywio datblygiad yn y dyfodol. Mae'n ofynnol i ni adolygu ein Cynllun Datblygu Lleol yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol ac i wneud newidiadau os oes angen. Dechreuodd y cam olaf, sef yr archwiliad cyhoeddus, ym mis Hydref 2025. Bydd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn ceisio cyflawni twf dros y cyfnod rhwng 2017 a 2033, gan greu cartrefi newydd a swyddi newydd, gan gynnwys swyddi posibl a fydd yn cael eu creu yn ystod cyfnodau cychwynnol cynigion y Porthladd Rhydd Celtaidd. Trafodwyd polisiau perthnasol yn ymwneud â'r Gymraeg yn yr adran ar bolisiau cynllunio cenedlaethol.

c). Crynodeb o'r cyd-destun polisi

Fel y dangosir uchod, mae sylfaen bolisi gref ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, ac mae angen i ni ystyried hynny i lywio ein dull gweithredu. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cael polisiau a strategaethau clir i amddiffyn, hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r iaith ledled Cymru.

⁸ [Cyngor Sir Penfro: Ysgolion Sir Benfro – Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–31](#)

2). Adolygiad o Strategaeth y Gymraeg 2021–26

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi ein strategaeth y Gymraeg, mae'n ofynnol i ni asesu i ba raddau yr ydym wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi. Y targed hwn yw, erbyn 2026, y bydd 32% o boblogaeth Sir Benfro yn gallu siarad Cymraeg (*fel yr adlewyrchir yn arolygon blynyddol o'r boblogaeth StatsCymru*). Rydym yn hyderus na fyddwn yn cyrraedd y targed hwn a thrafodir y data hwn o dan "Data arolwg blynyddol o'r boblogaeth StatsCymru" isod.

Mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth am nifer ac oedran siaradwyr Cymraeg, crynodeb o'r gweithgareddau a ddefnyddir i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, a themâu sy'n dod i'r amlwg.


a). Nifer ac oedran siaradwyr Cymraeg

Data ar gyfer Sir Benfro o'r Cyfrifiad

Yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad, cynyddodd cyfanswm poblogaeth Sir Benfro o 0.8% yn unig rhwng 2011 a 2021, sef cynnydd o tua 900. Yn gyffredin â llawer o awdurdodau lleol gwledig eraill, rhwng 2011 a 2021 bu cynnydd yng nghyfran y bobl hŷn a gostyngiad yn nifer y bobl iau.

Gwelwyd gostyngiad o 2% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro, o 19.2% yn 2011 i 17.2% yn 2021, sef ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (17.8%). Dyma oedd yr ail ostyngiad mwyaf ar y cyd, gyda'r gostyngiad mwyaf yn ardal gyfagos Sir Gaerfyrddin. Ar draws Cymru, gwelwyd gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o 19.0% i 17.8%.

Yn 2021, roedd ychydig o dan 2,200 yn llai o drigolion Sir Benfro yn siarad Cymraeg (dros dair oed) o gymharu â 2011. Bu cynnydd o 4,000 yn nifer y bobl nad oeddent yn siarad Cymraeg.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021



Mae'r Cyfrifiad yn caniatáu i ni gymharu sgiliau iaith pobl o wahanol oeddrannau mewn cymunedau, ac mae'r tabl isod yn dadansoddi hyn ar gyfer Sir Benfro.

Cyfrifiad 2011		Cyfrifiad 2021	
Categori oedran	Nifer / % sy'n gallu siarad Cymraeg	Categori oedran	Nifer / % sy'n gallu siarad Cymraeg
3–15 oed	7,268 (40.3%)	3–15 oed	5,617 (31.8%)
16–24 oed	3,070 (24.3%)	16–24 oed	2,544 (24.2%)
25–34 oed	1,718 (14.8%)	25–34 oed	2,193 (17.0%)
35–49 oed	3,101 (13.2%)	35–49 oed	2,680 (13.8%)
50–64 oed	3,491 (13.5%)	50–64 oed	3,283 (12.0%)
65+ oed	4,138 (15.5%)	65+ oed	4,310 (13.3%)
Cyfanswm	22,786 (19.2%)	Cyfanswm	20,627 (17.2%)

Gwelwyd cynnydd o 172 yn nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 (gan adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfanswm y bobl 65 oed a hŷn; bu gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg). Bu cynnydd o 475 yn nifer y bobl 25–34 oed sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021, yn ogystal â chyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ym mhob grŵp oedran arall.

Y gostyngiad mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg oedd yn y grŵp oedran 3–15, gan ostwng o 40.3% o siaradwyr Cymraeg yn 2011 i 31.8% yn 2021 (gostyngiad o 22.7% dros amser). Mae'r rhesymau dros y dirywiad hwn wedi cael eu harchwilio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru. Mae'n werth nodi y bydd y cwestiwn ar sgiliau Cymraeg ar gyfer pobl 3–15 oed yn cael ei gwblhau gan oedolion ac, i lawer o bobl ifanc 3–15 oed, bydd eu profiad o ddefnyddio'r Gymraeg yn canolbwyntio ar yr ysgol. O ystyried yr aflonyddwch i addysg yn y flwyddyn hyd at Gyfrifiad 2021, mae'n bosibl bod hyn wedi effeithio ar ganlyniadau 2021 a chymaroldeb â 2011. Am y rheswm hwn, mae'r mapiau canlynol yn canolbwyntio ar sgiliau Cymraeg y rhai 16 oed a throsodd.



Y Cyfrifiad yw'r prif ffordd y gallwn olrhain nifer y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau. Mae canran y bobl sy'n siarad Cymraeg mewn cymunedau yn amrywio'n sylweddol. Mae'r map isod yn dangos sut mae cymunedau yn Sir Benfro yn cymharu â phob un o'r 1,907 o gymunedau (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is) yng Nghymru. Mae'r niferoedd yn cyfeirio at y safle allan o 100, gyda'r niferoedd lleiaf yn dangos y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.





Mae'r map yn dangos bod llawer o ogledd Sir Benfro, ac yn enwedig gogledd-ddwyrain Sir Benfro, yn gadarnle i'r Gymraeg. Felly mae angen i'r strategaeth gynnal yr iaith yn y cymunedau hyn, yn enwedig ei defnydd bob dydd, tra bod y potensial mwyaf ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau yng nghanol a de'r sir.

Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bywyd bob dydd o fewn y gymuned. Mae'r cysyniad o ardaloedd o arwyddocâd neu sensitifrwydd ieithyddol wedi bod yn rhan o'r drafodaeth am gynllunio iaith yng Nghymru ers bron i ugain mlynedd ac fe'i cyfeirir ato yn adroddiadau diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a Llywodraeth Cymru.^{9 10} Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is gyda 40% neu uwch o boblogaeth yr ardal sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynnwys Crymych (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1 a 2), Clydau, Dinas, Cilgerran, Maenclochog (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1 a 2), Llandudoch a Threfdraeth.

Map 1: Canran o bobl 16 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg (2021)



Map 2: Gwahaniaeth pwynt canran yng ngallu pobl 16 oed a throsodd i siarad Cymraeg yn 2011 o'i gymharu â 2021



⁹ [Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg](#)

¹⁰ [Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg](#)

Mae defnydd o'r Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal. Mae'r mapiau hyn yn dangos bod nifer o gymunedau lle bu twf cymedrol o rhwng 0.6% a 2.7% (ardaloedd glas ar Fap 2) yng nghyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ne Sir Benfro. Mae tuedd am i lawr yng nghyfran y gymuned sy'n siarad Cymraeg yng ngogledd Sir Benfro.

Y gallu i ddarllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar (Cyfrifiad)

Cyfrifiad Nifer / % o'r boblogaeth	Cymru 2011	Cymru 2021	Sir Benfro 2011	Sir Benfro 2021
Darllen Cymraeg	539,245 18.2%	522,410 17.3%	21,043 17.8%	19,310 16.1%
Ysgrifennu Cymraeg	459,824 15.6%	458,460 15.2%	17,665 14.9%	16,661 13.9%
Deall Cymraeg llafar	672,828 22.8%	661,129 21.9%	28,070 23.7%	26,712 22.2%

Yn Sir Benfro a Chymru gyfan, mae'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a deall Cymraeg wedi lleihau ers 2011. Yn Sir Benfro:

% y gostyngiad	Sgiliau iaith
8.2% ↓	Darllen Cymraeg
5.7% ↓	Ysgrifennu Cymraeg
4.8% ↓	Deall y Gymraeg

Data arolwg blynyddol o'r boblogaeth StatsCymru

Mae'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth ar wefan StatsCymru hefyd yn darparu amcangyfrifon ar allu yn y Gymraeg ac amlder defnydd o'r iaith. Mae'r arolwg hwn ledled y DU yn cynhyrchu data, a gyhoeddir bob chwarter, ac mae data ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025 wedi'i gynnwys isod. Er bod y fethodoleg a maint y sampl yn cynhyrchu ffigurau sy'n gymharol gywir ar lefel Cymru gyfan, mae angen mwy o ofal ar lefel sirol. Mae amcangyfrifon yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth o allu'r Gymraeg yn uwch yn hanesyddol na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad.


Mae data ar gyfer Sir Benfro ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2025 yn amcangyfrif bod 30,000 o siaradwyr Cymraeg (24.5%) yn Sir Benfro – tua un o bob pedwar o bobl. Mae cyfartaledd dros gyfnod treigl o dair blynedd yn awgrymu bod canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro wedi bod yn gymharol gyson.

Canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro yn y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2016 (Ilinell sylfaen) a 2020 i 2025 (arolwg blynyddol o'r boblogaeth)

Dyddiad	Mawrth 2016	Mawrth 2020	Mawrth 2021	Mawrth 2022	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Mawrth 2025
% arolwg blynyddol o'r boblogaeth	28.8%	27.3%	31.7%	29.1%	27.9%	31.7%	24.5%
Cyfartaledd 3 blynedd	-	-	-	29.4%	29.6%	29.6%	28.0%

Isod mae rhan o adroddiad Llywodraeth Cymru ar ddata am y Gymraeg o'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth: 2024¹¹

Ffigur 1: Nifer y bobl dair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, 2001 i fis Rhagfyr 2024 [Nodyn 1]



Ffynhonnell: ABB (y SYG) a chyfrifiad o'r boblogaeth (y SYG).

[Nodyn 1] Newidiwyd i gynnal yr arolwg dros y ffôn yn unig ym mis Mawrth 2020. Cafodd cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb eu hailgyflwyno yn ystod tymor yr hydref 2023.

¹¹ [Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2024](#)

Mae'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth hefyd yn cofnodi gallu darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg. Yn Sir Benfro, yn y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025, roedd 22.3% yn gallu darllen Cymraeg, 18.2% yn gallu ysgrifennu Cymraeg, a 31% yn gallu deall Cymraeg llafar.

Data am amllder siarad Cymraeg o'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth

Blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth	Cymru 2016	Cymru 2021	Cymru 2025	Sir Benfro 2016	Sir Benfro 2021	Sir Benfro 2025
Bob dydd	15.9%	15.8%	13.8%	16.3%	16.3%	11.7%
Bob wythnos	4.6%	4.9%	5.3%	4.1%	4.8%	4.2%
Llai aml	6.3%	6.9%	6.7%	6.9%	9.0%	7.0%

Nid yw amllder siarad Cymraeg yn cael ei gofnodi yn y Cyfrifiad, felly cymerwyd ffigurau o'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth.¹² Yn Sir Benfro, ym mhob achos, mae amllder siarad Cymraeg wedi gostwng ers 2021. Roedd cynnydd ar gyfer categorïau bob wythnos a llai aml rhwng 2016 a 2021. Yng Nghymru, mae canran y bobl sy'n siarad Cymraeg 'bob dydd' neu 'yn llai aml' wedi gostwng. Fodd bynnag, mae'r ganran sy'n siarad Cymraeg 'bob wythnos' wedi cynyddu ychydig ers 2021.

Unwaith eto, mae'n werth nodi bod y cyfrifiadau'n seiliedig ar amcangyfrifon a dylid eu trin â rhywfaint o ofal. Mae'r ystadegyn hwn yn arbennig o berthnasol i ail thema strategol Cymraeg 2050, sef "*Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg*" a bydd yn parhau i gael ei fonitro fel rhan o strategaeth 2026–31.

Ystadegau ysgolion Sir Benfro

O ran addysg, ym mis Ebrill 2025, roedd 61 o ysgolion yn Sir Benfro, gan gynnwys un ysgol arbennig, yn gwasanaethu 9,022 o ddisgyblion oedran cynradd amser llawn ac 850 o ddisgyblion oedran cynradd rhan-amser, a 6,988 o ddisgyblion oedran uwchradd. Mae 20 o ysgolion sy'n ysgolion cyfrwng Cymraeg neu'n ysgolion dwy iaith.

Rydym yn rhagweld y bydd gostyngiad pellach o oddeutu 12% yn nifer y disgyblion yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o oedolion ifanc brodorol Sir Benfro wedi allfudo i gael addysg bellach/uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae gennym rai o'r ysgolion lleiaf yng Nghymru, ac mae 15 o'r ysgolion yn Sir Benfro â llai na 90 o ddisgyblion.

Mae 14% o'r disgyblion pum oed a throsodd yn rhugl yn y Gymraeg (fel yr aseswyd gan eu rhieni), sydd ychydig yn uwch na'r canolrif ar gyfer y 22 cyngor yng Nghymru, ac yn agos at gyfartaledd Cymru o 15%.

¹² [StatsCymru – Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Y Gymraeg](#)

b). Gweithgareddau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg 2021-26

Rhestrir detholiad o'r cyflawniadau a gyflawnwyd isod o dan bob un o'r pedwar amcan o Strategaeth y Gymraeg 2021–26. Mae'r cyflawniadau hyn yn adeiladu ar waith Strategaeth y Gymraeg 2016–21, sef y strategaeth gyntaf o'i math. Ni fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb waith caled y rhai sy'n gweithio i'r cyngor a'n sefydliadau partner, ac na fyddai'n bosibl cyflawni'r strategaeth yn llawn hebddynt. Bydd adolygiad pellach o'r gweithgareddau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gynnal ar ddiwedd y Strategaeth 5 mlynedd.

Amcan 1: Datblygu ein rôl arweinyddiaeth gymunedol o ran y Gymraeg

Trefniadau llywodraethu ar gyfer Strategaeth y Gymraeg

- Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, gan gynnwys cylch gorchwyl ar gyfer Grŵp Cyflawni Strategaeth y Gymraeg a Fforwm y Gymraeg mewn Addysg. Darperir manylion y trefniant llywodraethu yn yr adran ar Gynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2026–31.

Gwella canfyddiadau o rôl a phwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu arweinyddiaeth gymunedol trwy alluogi defnyddio'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y cyngor

- Ers mis Hydref 2022, rydym wedi darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd y cyngor; dechreuodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd o fis Mehefin 2025.

Amcan 2: Ehangu addysg blynyddoedd cynnar ac addysg ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg (fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg)

Gwella cyfleoedd i siarad Cymraeg o fewn lleoliadau addysgol y blynyddoedd cynnar ac yn yr ysgol

- Mae ein [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–31](#) yn nodi sut rydym yn bwriadu gwneud hyn dros y deng mlynedd nesaf.
- Rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn y cynllun hwn, ac fe ystyrir adroddiadau blynyddol gan y cabinet. Mae *Cymraeg 2050* yn datgan yn glir mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r 'prif ddull ar gyfer sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd'.
- Agorwyd yr ysgol cyfrwng Cymraeg 3–11 newydd ym Mhenfro, Ysgol Bro Penfro, ym mis Medi 2024, gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle AS, yn ymgymryd ag agoriad swyddogol yr ysgol ym mis Ionawr 2025.

- Mae nifer y plant sy'n mynychu Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer Elen yn hwb enfawr i'n targed yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac rydym yn hyderus y bydd Ysgol Bro Penfro yn adlewyrchu hynny ymhen ychydig flynyddoedd.
- Cymeradwywyd dalgylchoedd estynedig i Ysgol Brynconin / Ysgol Maenclochog ac Ysgol Bro Penfro gan y cabinet, gan gynyddu mynediad i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
- Llwyddodd y cyngor i gael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro.
- Ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwywyd cynigion ar gyfer buddsoddiad sylweddol a gwella ysgolion yn Aberdaugleddau gan y cabinet. Cyflwynir achos amlinellol strategol i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ysgol cyfrwng Cymraeg 3–11 oed yn Aberdaugleddau.
- Mae'r dyhead o adleoli Cylch Meithrin Arberth i safle Ysgol Gynradd Arberth yn rhan bwysig o godi proffil y Gymraeg yn yr ysgol.
- Mae yna ystod o ddarpariaeth cyn-ysgol, gan gynnwys Cymraeg i Blant, rhaglen flasu Clwb Cwtsh, sydd wedi'i hanelu at rieni / aelodau o'r teulu, Cylch Ti a Fi i rieni a phlant bach, meithrinfeydd dydd dwyieithog, a chylch meithrin.
- Cafodd nifer o gystadleuwyr o Sir Benfro lwyddiant sylweddol yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025, gyda'r sir yn cyrraedd y pedwerydd safle yn nhabl y medalau. Cafwyd llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024, gyda'r sir yn cyrraedd y trydydd safle. Sir Benfro oedd â'r nifer uchaf o geisiadau cystadlu o bob sir a rhanbarth yn 2024.
- Mae cael ein dewis i gynnal [Eisteddfod Genedlaethol 2026](#), "Eisteddfod y Garreg Las 2026", rhwng 1 a 8 Awst yn anrhydedd ac rydym yn gweithio gyda'r gymuned ac awdurdodau cyfagos i ddathlu'r Gymraeg a'i diwylliant yn y digwyddiad mawreddog hwn.

Gweithgareddau staff mewn ysgolion

- Mae penodiadau staff ychwanegol o ganlyniad i'r grant trochi wedi ymestyn y ddarpariaeth drochi yn gadarn, gan gynyddu'r cymorth sydd ar gael ar draws camau cynnydd.
- Mae ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth ysgolion, Sir Benfro 50, yn cael effaith ardderchog ar ddarparu'r staff uwch a'r penaethiaid sydd eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol.
- Mae amrywiaeth o gyfleoedd wedi'u darparu i staff mewn ysgolion i wella eu cymhwysedd yn y Gymraeg o lefel mynediad i fod yn gwbl hyfedr, gan fanteisio'n llawn ar yr ystod o gyrsiau gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, e.e. cynllun sabothol Cymraeg, cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn a Phentre Ifan, a chyrsiau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Caiff hyfedredd ei fonitro yn arolwg blynyddol y cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion a chynllunnir darpariaeth o ganlyniad i'r dadansoddiad, e.e. pecynnau hyfforddi pwrpasol ar gyfer cynorthwyyr addysgu a/neu staff addysgu.

- Darperir hyfforddiant caffael iaith a methodoleg i bob arweinydd Cymraeg o ysgolion gan y Swyddog Datblygu Cymraeg mewn cyfarfodydd rhwydwaith, a hyfforddiant a chymorth pwrpasol mewn ysgolion lle bo'n briodol. O ganlyniad, mae staff addysgu yn dangos mwy o hyder wrth gefnogi caffael iaith disgyblion.
- Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi darparu ystod o gyfleoedd i gefnogi disgyblion i barhau â'u sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau ôl-16.
- Darperir cymorth i wella lefelau hyfedredd Cymraeg staff y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gydag ystod eang o weithgareddau a ddarperir trwy fenter Siarter Iaith yr awdurdod lleol a gweithgareddau eraill gan bartneriaid allweddol, e.e. Menter Iaith Sir Benfro, yr Urdd. O ganlyniad, mae lefelau hyder staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg wedi cynyddu ac mae eu sgiliau wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o fewn ystod o leoliadau hefyd wedi gwella ymhellach.

Gweithgareddau'r Gwasanaeth Ieuencid

- Anogir pobl ifanc i ddefnyddio eu Cymraeg yn anffurfiol ar draws lleoliadau'r Gwasanaeth Ieuencid, gan gynnwys Gwobr Dug Caeredin a chlybiau ieuencid Cyngor Sir Penfro. Fel y nodir isod, bydd gan y dosbarth Cymraeg pwrpasol ar gyfer gweithwyr ieuencid i wella eu hyder a'u sgiliau'r fantais ychwanegol o annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i leoliadau ysgol. Bydd hyn yn cefnogi ac yn annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol ac i gynyddu defnydd achlysurol o'r Gymraeg. Gofynnwyd i arweinwyr tîm clybiau ieuencid ymgorffori gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg yn eu rhaglenni o leiaf unwaith y mis.
- Yn ogystal, rydym wrthi ar hyn o bryd yn penodi person ifanc yn 'Llysgennad Cymraeg' ym mhob clwb ieuencid. Rydym yn rhagweld y bydd y fenter hon yn helpu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc a gweithwyr ieuencid o fewn y clybiau.
- Mae gan staff y Gwasanaeth Ieuencid fynediad hefyd at lawlyfr Cymraeg, ochr yn ochr ag amrywiaeth o adnoddau i gefnogi cyflwyno eu rhaglen i bobl ifanc.

Amcan 3: Gwella cyfleoedd i bobl sy'n gadael yr ysgol, ac oedolion eraill, ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro

Parhau i ddarparu a hyrwyddo darpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion drwy ein gwasanaeth dysgu cymunedol (Sir Benfro yn Dysgu)

- Mae Sir Benfro yn Dysgu, ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn darparu cyrsiau i ddysgwyr Cymraeg ar bob lefel ledled Sir Benfro, y gellir eu canfod ar wefan [Dysgu Cymraeg Sir Benfro](#).

- Cynigir cyrsiau Cymraeg mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol amseroedd, gan gynnwys ar-lein, ac maent yn cynnwys cyrsiau lefel Blasu, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd.
- Darperir cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle ar gyfer sefydliadau lleol sy'n cydnabod manteision cefnogi eu gweithwyr i ddysgu Cymraeg.
- Darperir cyrsiau Cymraeg yn y Cartref i rieni a gofawyr fel y gallant hwythau, yn eu tro, helpu a chefnogi eu plant.
- Mynychodd staff Cyngor Sir Penfro gyrsiau prif ffrwd hefyd (y tu allan i oriau gwaith).
- Mae amrywiaeth o weithgareddau anffurfiol yn digwydd bob mis i gefnogi dysgwyr y tu allan i wersi ffurfiol.
- Mae Coleg Sir Benfro, aelod o'n Fforwm Cymraeg mewn Addysg, yn derbyn cyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae manylion darpariaeth Gymraeg i'w gweld ar dudalen we [Y Gymraeg yn y Coleg](#).

Cyfleoedd i sefydlu clystyrau gwirioneddol/rhithwir ar gyfer y Gymraeg o fewn Cyngor Sir Penfro

- Ar hyn o bryd, mae'r cyngor / Dysgu Cymraeg Sir Benfro yn derbyn cyllid ar gyfer tiwtor Cymraeg Gwaith amser llawn gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae nifer fawr o staff wedi cwblhau cyrsiau blasu ar-lein ac wyneb yn wyneb, ac mae dosbarthiadau ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd yn parhau. Daw dysgwyr yn y dosbarthiadau hyn o amrywiaeth eang o adrannau, tra bod datblygiad diweddar wedi bod i dargedu hyfforddiant ar gyfer timau penodol, e.e. gweithwyr ieuenctid. Mae grŵp bach Codi Hyder yn cyfarfod yn wythnosol.

Modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

- Yn ystod y broses newydd, a lansiwyd ym mis Hydref 2025, cafodd y Llyfryn Croeso Corfforaethol ei ddisodli gan fodiwl e-ddysgu sefydlu newydd. Mae'r modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i gynnwys. Bydd yn orfodol i ddechreuwr newydd gwblhau'r modiwl hwn.

Cyfleoedd i bob dechreuwr newydd nad yw'n siarad Cymraeg ymgymryd â chwrs blasu'r Gymraeg

- Mae cwrs blasu'r Gymraeg deg awr o hyd ar gael i staff, ac mae'r tiwtor Cymraeg Gwaith yn cysylltu â gweithwyr newydd, sy'n asesu eu lefelau sgiliau Cymraeg ac yn eu cyfeirio yn unol â hynny.

Cyflwyno'r cynllun band eang gwibgyswllt yn Sir Benfro, sy'n ceisio gwella cysylltedd digidol ar gyfer cartrefi a busnesau yn y sir

- Yn 2021, roedd llai na 6% o safleoedd yn Sir Benfro a oedd â mynediad at fand eang ar gyflymder o 300Mbps (band eang gwibgyswllt) ac roedd gan 2.5% gyflymder o lai na 2Mbps.

- Rydym wedi gweld gwelliant sylweddol mewn cysylltedd digidol ledled Sir Benfro. Ar ddechrau mis Tachwedd 2025, mae gennym ni nawr 69.07% o safleoedd sydd â mynediad at fand eang gwibgyswllt (100Mbps+), o'i gymharu â llai na 6% yn flaenorol. Dim ond 1.01% o safleoedd sydd bellach yn profi cyflymderau o lai na 2Mbps, i lawr o 2.5% ers y diweddariad diwethaf. Mae gwaith i gyflwyno'r cynllun yn parhau, gan gefnogi gweithgarwch economaidd, gweithio o bell, a mynediad at wasanaethau digidol.

Hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o'r canlynol:

Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid – gwasanaeth y Gymraeg (01437 764551)

<https://www.sir-benfro.gov.uk/cyngor> www.facebook.com/cyngorsirpenfro

www.twitter.com/cyngorsirpenfro <https://www.facebook.com/LearnCymraegPembs>

- Adroddir ar fonitro defnydd drwy ein hadroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg. Er bod cynnydd wedi bod yn y defnydd dros y cyfnod o bum mlynedd, mae hyn wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar y sianel a ddefnyddir. Mae'n bosibl bod gostyngiadau mewn defnydd wedi digwydd oherwydd y sianeli eraill rydyn ni wedi'u cyflwyno sydd hefyd yn rhoi gwybodaeth i gwsmeriaid, gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eraill, Fy Nghyfrif ac Alexa, gan leihau'r angen i ddibynnu'n llwyr ar y ganolfan gyswllt neu'r wefan am wybodaeth.

Ymgyrchoedd hyrwyddo o amgylch digwyddiadau blynyddol

- Rydym yn darparu rhaglen ar-lein o ddigwyddiadau ar gyfer dyddiadau allweddol yn y calendr Cymraeg, gan gynnwys Dydd Santes Dwynwen, Diwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru, a Gŵyl Fach yr Hydref ym mis Hydref, a chynhaliwyd gŵyl y dysgwyr ym Maenordy Scolton ym mis Mehefin 2025 yn cynnig gweithdai garddio a chelf a chyflwyno gwobrau.
- Cynhaliwyd Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi ar 7 Mawrth 2025. Wedi'i drefnu gan Fforwm Iaith Sir Benfro a'r cyngor, cymerodd cannoedd o blant ysgol ran yn yr orymdaith a'r jambori awyr agored, sydd wedi bod yn boblogaidd gydag ysgolion a thrigolion. Cynhaliwyd bore coffi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd y Sir i staff, a oedd yn cynnwys gweithgareddau "blasu" ar gyfer y Gymraeg gyda'r tiwtor Cymraeg Gwaith.

Amcan 4: Cefnogi'r Gymraeg yn weithredol o fewn ein cymunedau / sector busnes

Mae mesurau i gryfhau'r Gymraeg wedi'u hymgorffori yn ein polisïau a'n strategaethau cynllunio, tai ac adfywio

- Mae ein Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer cymunedau Sir Benfro yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- Fe wnaethon ni ymateb i newidiadau yn argaeledd tai yn sgil cynnydd mewn ail gartrefi a llety gwyliau. Ym mis Ebrill 2025, penderfynwyd defnyddio'r cyllid

a godwyd o bremiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi i lansio'r cynllun Cymorth Prynu Sir Benfro, gan helpu prynwyr tro cyntaf i brynu cartref yn Sir Benfro.

Cefnogwyd Fforwm Iaith i gynhyrchu a hyrwyddo pecyn gwybodaeth

- Mae pecyn croeso newydd wedi'i ddatblygu i bobl sy'n symud i'r ardal sy'n hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a ffyrdd o ddysgu'r iaith a dysgu mwy am y diwylliant lleol.

Cyfleoedd i sicrhau cyllid i roi cymhelliant i fusnesau lleol wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg

- Cyllid ar gyfer prosiect Pobl Preseli, ac mae'n cynnwys cefnogi busnesau gydag arwyddion Cymraeg ac ymgorffori ymadroddion Cymraeg mewn deunyddiau hyrwyddo, gan gyfrannu at ddefnyddio'r Gymraeg.

Hyrwyddo sefydliadau sy'n darparu cymorth am ddim i fusnesau lleol wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg

- Mae'r dudalen we Gymraeg wedi'i diweddarau i gynnwys gwybodaeth am gymorth am ddim i fusnesau lleol. Mae hyn yn cynnwys Helo Blod, gwasanaeth cyfieithu a chynghor Cymraeg am ddim, adnoddau Llywodraeth Cymru, a Chomisiynydd y Gymraeg.

Ehangu gwybodaeth am y Gymraeg ar www.pembrokeshire.gov.uk

- Mae'r dudalen we Gymraeg wedi'i hehangu i gynnwys dolenni i dudalennau gwe am addysg Gymraeg, Sir Benfro yn Dysgu, ac Eisteddfod Genedlaethol 2026. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ailgynllunio'r dudalen we ac ehangu'r wybodaeth ac adnoddau.

Partneriaethau

Mae partneriaethau sefydledig y cyngor yn allweddol i gyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus.

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Mudiad Meithrin• Urdd Gobaith Cymru• Coleg Sir Benfro• Coleg Ceredigion• Coleg Sir Gâr• Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant• Sir Benfro yn Dysgu• Menter Iaith Sir Benfro• Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | <ul style="list-style-type: none">• Clwb Ffermwyr Ifanc• Cymraeg i Blant• Merched y Wawr• Coleg Cymraeg Cenedlaethol• Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG)• Partneriaeth• Llywodraeth Cymru• Comisiynydd y Gymraeg• Awdurdodau lleol eraill |
|--|--|

c). Themâu sy'n dod i'r amlwg a nodwyd ar gyfer Sir Benfro

Rydym wedi adolygu'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol, y cyd-destun ieithyddol, a'n cynllun gweithredu ar gyfer Strategaeth y Gymraeg 2021–26 ac wedi nodi'r themâu canlynol sy'n dod i'r amlwg sydd wedi ein helpu i ddatblygu a llunio ein cynllun gweithredu pum mlynedd.

Heriau demograffig

- Rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021, gwelwyd gostyngiad o 2% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro, o 19.2% yn 2011 i 17.2% yn 2021, ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (17.8%). Mae hyn yn cynrychioli colled o bron i 2,200 o drigolion sy'n siarad Cymraeg, tra bod nifer y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cynyddu tua 4,000. Mae'r duedd hon yn dangos nad yw'r defnydd o'r Gymraeg yn cyd-fynd â thwf y boblogaeth a phatrymau mudo. Roedd gostyngiadau nodedig ymhlith pobl iau. Gall y dirywiad fod oherwydd llawer o ffactorau, gan gynnwys oedolion iau sy'n gadael y sir am addysg, hyfforddiant a gwaith, gan leihau'r gronfa o siaradwyr Cymraeg posibl yn lleol. Gall y duedd hon gael ei gwaethygu gan ddiffyg tai fforddiadwy, diffyg cyflogaeth neu wasanaethau mewn rhannau o Sir Benfro, a gostyngiad yng nghyfraddau genedigaethau, gan ei gwneud hi'n anoddach cadw teuluoedd sy'n siarad Cymraeg.
- Mae amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y bydd poblogaeth 0–15 oed yn Sir Benfro yn lleihau tua 10% rhwng 2020 a 2031 (*StatsCymru: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn*). Bydd y newid hwn yn lleihau nifer y plant sy'n dechrau addysg cyfrwng Cymraeg oni bai fod mesurau rhagweithiol yn cael eu cymryd i gynyddu'r nifer sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n cael eu cadw.

Themâu

- Mae newidiadau yn y boblogaeth yn her i gyflawni gweledigaeth *Cymraeg 2050* o filiwn o siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu mewn cymunedau a gweithleoedd.

Addysg

- Parhau i ganolbwyntio ar gyflawni saith deilliant Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–31.
- Ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg gynradd ac uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Benfro.
- Mae cyfleoedd i'r cyngor geisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac rydym eisoes wedi cael llwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae partneriaid y cyngor yn bwysig i gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn llwyddiannus.

Dysgu gydol oes a defnydd cymdeithasol

- Parhau i wella cyfleoedd i bobl sy'n gadael yr ysgol, ac oedolion eraill, ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro.
- Parhau â chyfleoedd a gweithgareddau i bobl ifanc ac oedolion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol y tu allan i'r ysgol er mwyn sicrhau nad yw sgiliau Cymraeg yn cael eu colli wrth i'n pobl ifanc adael y system addysg i fyd gwaith a bywyd fel oedolion.
- Cefnogi'r Gymraeg yn weithredol yn ein cymunedau.

Integreiddio deddfwriaethol a pholisi

- Mae deddfwriaeth newydd i'w gweithredu yn sgil Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025.
- Sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu cynnwys ym mhob polisi a phenderfyniad llunio polisi.

Cymuned

- Mae ein gweithgareddau cynllunio, tai ac adfywio yn helpu i amddiffyn a gwella cyfleoedd i siarad Cymraeg yn ein cymunedau.

Recriwtio

- Mae recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn her ar draws llawer o adrannau yn y cyngor a sefydliadau/partneriaid. Mae gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn arbennig yn profi heriau wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg.

Ymwybyddiaeth a safonau

- Cynyddu ymwybyddiaeth o safonau'r Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cyngor.
- Parhau i hyrwyddo gwasanaethau ac adnoddau y Gymraeg ledled Sir Benfro.

Technoleg a chyfleoedd digidol

- Manteisio ar dechnoleg ddigidol i gefnogi dysgwyr Cymraeg a darpariaeth gwasanaethau.

Pwysau ar adnoddau a chyllidebau

- Gall pwysau a chyfyngiadau cyllidebol effeithio ar gynllunio staffio a chynllunio olyniaeth, gan beryglu colli personél profiadol ac adnoddau sydd ar gael.

Asesu data a sgiliau'r gweithlu

- Rydym yn parhau i gael bylchau yn y data rydym yn ei gasglu ar gyfer lefelau sgiliau Cymraeg ein staff ar draws y cyngor. Mae hyn yn effeithio ar ddealltwriaeth o sgiliau a chapasiti'r gweithlu, yn arwain at gynllunio gweithlu llai effeithiol, ac yn effeithio ar ofynion adrodd.
- Bydd angen i ddata ar lefelau sgiliau Cymraeg adlewyrchu'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd yn unol â Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025.

Rhwysrau ymgysylltu a hyder

- Heriau wrth gwblhau cyrsiau oherwydd ffactorau sy'n cynnwys pwysau sy'n gysylltiedig â gwaith / y cartref, diffyg amser i ymrwymo, neu symud ymlaen i rolau gwahanol.
- Gall diffyg defnydd o'r Gymraeg a diffyg cyfleoedd cymdeithasol effeithio ar hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn y gwaith ac yn y gymuned.
- Mae'n bosibl bod gweithio hybrid / o bell wedi cael effaith negyddol ar gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg yn gymdeithasol gyda chydweithwyr yn y gweithle.

Y farchnad dai a chyflogaeth

- Os ydym am sicrhau y gall ein pobl ifanc aros a gweithio yn ein cymunedau, rhaid cael cyflenwad digonol o dai a swyddi addas.

Twristiaeth

- Mae ein heconomi yn dibynnu ar dwristiaeth ac mae cyfleoedd yma i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru.

Crynodeb o'r themâu sy'n dod i'r amlwg

Er bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n dysgu ac yn siarad Cymraeg, yn enwedig drwy ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r tueddiadau demograffig yn peri her wirioneddol i gyflawni'r weledigaeth genedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae llai o ddysgwyr ifanc a chyfraddau trosglwyddo sy'n gostwng yn golygu y bydd angen i Sir Benfro ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, creu cymhellion i deuluoedd aros yn Sir Benfro, a hyrwyddo'r Gymraeg ym mywyd beunyddiol.

Er bod heriau, mae cyfleoedd clir i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol lewyrchus. Gallwn ddefnyddio technoleg, gwella data, cryfhau partneriaethau, ymgorffori polisïau sy'n hyrwyddo ac yn ystyried defnydd o'r iaith, a chreu stoc dai a swyddi newydd drwy ein Cynllun Datblygu Lleol i gefnogi teuluoedd i aros yn Sir Benfro.

Ni fyddwn yn cyrraedd y targed uchelgeisiol o 32% o boblogaeth Sir Benfro yn gallu siarad Cymraeg erbyn diwedd strategaeth 2021–26. Byddwn yn cynnal y targed uchelgeisiol ac yn trosglwyddo'r targed hwn i strategaeth 2026–31. Drwy adolygu cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu ar gyfer 2026–31 yn flynyddol, gan ddefnyddio data a gwybodaeth a adroddir yn ein hadroddiadau blynyddol ar safonau'r Gymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gallwn asesu beth sy'n gweithio, nodi bylchau, ac addasu'r hyn rydym yn ei wneud yn seiliedig ar unrhyw ddata newydd a thrwy ddilyn blaenoriaethau cenedlaethol. Bydd hyn yn helpu i gadw camau gweithredu ar y trywydd iawn, gan sicrhau bod ganddynt ffocws a'u bod yn effeithiol dros amser.

3). Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2026–31

Yn seiliedig ar adolygiad o'r cyd-destun polisi, y cyd-destun ieithyddol, a'n strategaeth gyfredol ar gyfer y Gymraeg, Strategaeth y Gymraeg 2021–26, gan ein Grŵp Cyflawni Strategaeth y Gymraeg dyma ein gweledigaeth a'n hamcanion ar gyfer 2026–31:

Gweledigaeth a themâu strategol

Ein nod yw cefnogi *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* Llywodraeth Cymru ac adlewyrchu ei themâu strategol.

“Mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cyrraedd miliwn, ac mae'n cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth tuag at yr iaith a chydabyddiaeth o'i holl gyfraniad at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.”

Themâu strategol *Cymraeg 2050*:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol, seilwaith a chyd-destun

Amcanion – cefnogi gweledigaeth a themâu strategol *Cymraeg 2050*

Bydd ein hamcanion yn cael eu cario ymlaen o 2021–26 ac yn adlewyrchu'r weledigaeth genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r iaith:

1. Datblygu ein rôl arweinyddiaeth gymunedol o ran y Gymraeg
2. Ehangu addysg blynyddoedd cynnar ac addysg yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg (fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg)
3. Gwellu cyfleoedd i bobl sy'n gadael yr ysgol, ac oedolion eraill, ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro
4. Cefnogi'r Gymraeg yn weithredol o fewn ein cymunedau / sector busnes

Targed

Rydym yn parhau i osod targed uchelgeisiol ar gyfer canran poblogaeth Sir Benfro sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn 2031.

Ein nod yw cynyddu y ganran sy'n siarad Cymraeg 0.5% y flwyddyn.

- Cynnydd yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg o 29% i 32% erbyn 31 Mawrth 2031 (Data Arolwg Blynyddol).
- Y llinell sylfaen ar 31 Mawrth 2025 yw bod 29% yn gallu siarad Cymraeg (yn seiliedig ar gyfartaledd treigl tair blynedd ers 2023, 2024, 2025)

Byddwn hefyd yn gosod targed ar gyfer amlder siarad Cymraeg.

- Cynnydd yn y ganran sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd o 15% i 16% erbyn 31 Mawrth 2031 (Data Arolwg Blynyddol).
- Y llinell sylfaen ar 31 Mawrth 2025 yw bod 15% yn siarad Cymraeg bob dydd (yn seiliedig ar gyfartaledd treigl 3 blynedd, 2023, 2024, 2025).

Rydym yn bwriadu cyrraedd y targed hwn drwy gyflawni'r camau gweithredu o dan y pedwar amcan. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan y trefniadau llywodraethu a monitro sydd gennym ar waith, a fydd yn monitro cynnydd yn erbyn mesurau perfformiad.

Cynllun Gweithredu 2026–31

Bydd blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu yn cael eu cytuno yn flynyddol gan Grŵp Cyflawni y Strategaeth

Amcan 1: Datblygu ein rôl arweinyddiaeth gymunedol o ran y Gymraeg

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Amserlen	Mesur llwyddiant
1.1 Adolygu trefniadau llywodraethu ar gyfer Strategaeth y Gymraeg – goruchwyllo gweithrediad, monitro, ac adrodd ar gynnydd	Uwch-arweinwyr cyfrifol	Blynyddol / 2031	Trefniadau llywodraethu wedi'u hadolygu / cadarn ar waith
1.2 Gwella canfyddiadau o rôl a phwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu arweinyddiaeth gymunedol – trwy barhau i alluogi defnydd o'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y cyngor	Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / TG / Gwasanaethau Cyfieithu	2026–2031	Gall aelodau'r cyngor sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y cyngor wneud hynny

Amcan 2: Ehangu addysg blynyddoedd cynnar ac addysg ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg (fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg)

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Amserlen	Mesur llwyddiant
2.1 Deiliant 1 – Mwy o blant meithrin yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	2022–2031	Cynyddu nifer y plant oedran meithrin sy'n derbyn gofal plant / addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg
2.2 Deiliant 2 – Mwy o blant oedran derbyn / plant 5 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Fel uchod	Cynyddu nifer y dosbarthiadau derbyn a'r disgyblion cyfrwng Cymraeg
2.3 Deiliant 3 – Mae mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Fel uchod	Cynyddu nifer y dysgwyr trwy gyfnodau pontio allweddol
2.4 Deiliant 4 – Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Fel uchod	Cynyddu nifer y cymwysterau a'r pynciau y gellir eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg
2.5 Deiliant 5 – Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Fel uchod	Nifer y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
2.6 Deiliant 6 – Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Fel uchod	Cymorth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg
2.7 Deiliant 7 – Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Fel uchod	Nifer yr athrawon a staff cymorth sydd â gallu cyfrwng Cymraeg
2.8 Gweithgareddau allgyrsiol: Bydd y cyngor yn gweithio gyda Menter Iaith Sir Benfro, yr Urdd, y Fforwm Iaith a gwasanaethau ieuenctid eraill i ddarparu ystod	Fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Fel uchod	Nifer y gweithgareddau cymunedol ac ieuenctid a ddarperir bob blwyddyn

eang o weithgareddau allgyrsiol i dargedu defnydd cymdeithasol, sicrhau presenoldeb ar-lein effeithiol, mapio a hyrwyddo darpariaeth, cynnig gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol, a dathlu'r rhai sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant.

Amcan 3: Gwellu cyfleoedd i bobl sy'n gadael yr ysgol, ac oedolion eraill, ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Amserlen	Mesur llwyddiant / tystiolaeth
3.1 Parhau i ddarparu a hyrwyddo darpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion drwy ein gwasanaeth dysgu cymunedol (Sir Benfro yn Dysgu)	Adnoddau Dynol / Swyddog Cymraeg	Blynyddol / 2031	Cyfraddau cymryd rhan a chwblhau uwch mewn dysgu
3.2 Parhau i archwilio clystyrau Cymraeg gwirioneddol/rhithwir o fewn y cyngor	Cymraeg Gwaith / Dysgu a Datblygu	Blynyddol / 2031	Cynyddu defnydd o'r Gymraeg / hyder
3.3 Hyrwyddo a chefnogi Cymraeg Gwaith drwy godi ymwybyddiaeth fewnol gyda rheolwyr a staff	Cymraeg Gwaith / Dysgu a Datblygu / Polisi	Blynyddol / 2031	Nifer sy'n mynychu a chwblhau cyrsiau
3.4 Datblygu a gweithredu ymgyrchoedd hyrwyddo o amgylch digwyddiadau Cymraeg (gan gynnwys yr Eisteddfod, digwyddiadau blynyddol, a gwyliau lleol)	Addysg / Cyfathrebu	Blynyddol / 2031	Nifer yr ymgyrchoedd/digwyddiadau a hyrwyddwyd
3.5 Hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o wasanaethau digidol – y we / cyfryngau cymdeithasol	Gwasanaethau Digidol / Sir Benfro yn Dysgu	Blynyddol / 2031	Adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg
3.6 Cefnogi'r "cynnig rhagweithiol" drwy gynllun gweithredu "Mwy na Geiriau"	Gwasanaethau Cymdeithasol / Dysgu a Datblygu	Blynyddol / 2031	Monitro blynyddol
3.7 Adolygu'r Defnydd Mewnol o'r Polisi Cymraeg	Polisi / GCSG	Blynyddol / 2031	Polisi ar waith sy'n cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg

Amcan 4: Cefnogi'r Gymraeg yn weithredol o fewn ein cymunedau / sector busnes

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Amserlen	Mesur llwyddiant
4.1 Byddwn yn parhau i ehangu gwybodaeth am y Gymraeg / yr adnoddau Cymraeg ar www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir.benfo.gov.uk , gan gynnwys cyfeirio at adnoddau am ddim (e.e. Helo Blod) ar gyfer busnesau/cymunedau	Polisi / Addysg	2026–2031	Mwy o adnoddau ar gael Nifer yr ymweliadau/defnyddwyr
4.2 Archwilio cyfleoedd i sicrhau cyllid i gefnogi cymunedau/busnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg	Grantiau / Fforymau / GCSG	2026–2031	Nifer cynyddol o fusnesau sy'n ymwybodol o adnoddau ac yn darparu gwasanaethau dwyieithog
4.3 Mae ystyriaethau o effaith ar y Gymraeg yn cael eu hymgorffori mewn polisïau (gan gynnwys cynllunio, tai, adfywio) ac wrth wneud penderfyniadau polisi	Polisi / pob gwasanaeth	2026–2031	Nifer yr asesiadau effaith a gwblhawyd
4.4. Gwella data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu i gefnogi cynllunio'r gweithlu ac adrodd blynyddol. Parhau i adolygu a diweddarau'r broses o nodi rolau ar draws y sefydliad lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Asesu lefelau sgiliau presennol a darparu cyfleoedd i ddatblygu i gefnogi staff i feithrin y sgiliau hyn. Drwy'r Polisi Recriwtio, parhau i atgyfnerthu'r angen i reolwyr nodi anghenion sgiliau Cymraeg mewn disgrifiadau o swyddi a hysbysebion swyddi. Alinio'r asesiad o sgiliau'r gweithlu â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd.	Adnoddau Dynol / Polisi	2026–2031	Data cywir a chyfredol am sgiliau Cymraeg y gweithlu ar gyfer yr holl staff. Nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg wedi'i dynodi a hysbysebwyd a'u llenwi. Nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda sgiliau Cymraeg dynodedig wedi'u pennu

Parhau i gynnal recriwtio wedi'i dargedu, gan gynnwys datblygu tudalennau gwe recriwtio.				
4.5 Archwilio a defnyddio technoleg sydd ar gael, gan gynnwys deallusrwydd artifisial, e-ddysgu, a thechnolegau iaith, i gefnogi defnydd o'r Gymraeg	TGCh / Polisi / GCSG	2026–2031	Cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau drwy dechnoleg	
4.6 Sicrhau cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg drwy godi ymwybyddiaeth a gwreiddio safonau yng ngweithgareddau a gwasanaethau'r cyngor	Polisi / GCSG	2026–2031	Cydymffurfedd o 100% Nifer y cwynion	
4.7 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cyllid grant i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion	Addysg	2026–2031	Achos/achosion busnes llwyddiannus	

Llywodraethiant

- **Aelod Cabinet:** Addysg a'r Gymraeg / **Pencampwyr y Gymraeg:** 2
- **Uwch-swyddog:** Cyfarwyddwr Addysg
- Fforwm Iaith y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Grŵp Cyflawni Strategaeth y Gymraeg (GCSG)
- Fforwm y Gymraeg

Monitro

- Adolygu cynnydd yn flynyddol ac addasu camau gweithredu yn seiliedig ar ddata sy'n dod i'r amlwg a chyfeiriad cenedlaethol
- Adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg
- Adroddiad adolygu blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Adroddiad adolygu'r cyngor ar yr hunanasesiad blynyddol
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol
- Cabinet a chyngor

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi bod yn llwyddiannus?

Mesurau perfformiad:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg a'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd
- Nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg
- Nifer ac ystod y gweithgareddau a gynigir i blant a phobl ifanc, teuluoedd, ac oedolion a phobl hŷn
- Nifer y dysgwyr sy'n dod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd (Cymraeg Gwaith a Sir Benfro yn Dysgu)
- Nifer y gwasanaethau Cymraeg sy'n bodloni safonau'r Gymraeg
- Nifer y gwasanaethau digidol sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg
- Gwelliant yn y data am y gweithlu a ddefnyddir yn effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu
- Nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael
- Trefniadau llywodraethu a chwynion effeithiol ar waith
- Mae'r Gymraeg wedi'i hymgorffori yn ein polisïau a'n prosesau gwneud penderfyniadau

Casgliad

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer cryfhau defnydd, dysgu a gwelededd y Gymraeg ar draws gwasanaethau a chymunedau'r cyngor. Drwy ymgorffori'r Gymraeg ym mhob maes addysg, polisi, darparu gwasanaethau, a dysgu a datblygu'r gweithlu, bydd y cyngor yn cyfrannu at weledigaeth genedlaethol *Cymraeg 2050*.